

Agor y Llyfr

Erbyn hyn, trefnwyd i 'Agor y Llyfr' gael ei gynnal yn Ysgol Gwau Gynfi, Deiniolen fore Gwener, Tachwedd 13. Os cofiwch, cynllun yw hwn i dim o bobl ddarllen straeon o'r Beibl i blant mewn ysgolion cynradd. Byddwn yn mynd i'r ysgol ar gyfer y gwasanaeth boreol am 9.10 o'r gloch.

Os na fedrwyh ddod efo ni i'r ysgol mi fedrwyh fod yn rhan o'r gwaith trwy weddio drosto. Cofiwch amdanom felly y bore hwnnw.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 25: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Hydref 23: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 25: Yn yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yng nogfal plant yr Ysgol Sul.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 25: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 18

Oedfaon Diolchgarwch
10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 25

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Tachwedd 1

10.00 a.m. - Y Gweinidog

BETHLEHEM

Dydd Iau, Hydref 22: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 25: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, ac yna am 2.00 o'r gloch bydd Gwasanaeth Diolchgarwch yng ngofal plant ac aelodau'r Ysgol Sul a'r Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 19: Y Dosbarth Gwau rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 23: Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 25: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Hydref 23: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Nos Lun, Tachwedd 9: Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 18

10.00 a.m. - Oedfa Parti Bytholwyrdd
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Hydref 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu - Gwasanaeth Diolchgarwch

Tachwedd 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL
(Gwyliau Hanner Tymor)
5.00 p.m. - Y Parchg Euros Jones



Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 654: Dydd Sul, 18 Hydref, 2015

Dau lythyr

Dau gar. Dau lythyr. Dwy broblem. O fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd daeth acw ddau lythyr tebyg yn nodi fod ar y ddau gar angen sylw. Roedd y llythyr cyntaf oddi wrth gwmi Toyota yn nodi fod bagiau awyr ein car ni'n ddiffygiol. Nid problem unigryw i'n car ni mo hon wrth gwrs; mae gan y cwmni restr o filoedd o geir y bwriedir cywiro'r diffyg hwn ynddyn nhw dros y misoedd nesaf. Yn yr ail lythyr, roedd cwmni Seat yn nodi fod ein car arall yn un o'r miloedd o geir sy'n rhan o dwyll cwmni Volkswagen, a honnodd fod eu ceir yn 'lanach' nag ydyn nhw mewn gwirionedd yn amgylcheddol. Mae hwn hefyd ar restr hir o geir y bydd angen eu cywiro, rywbryd y flwyddyn nesaf yn ôl y llythyr.

Nid peth newydd yw rhestrau o'r fath. Rydym wedi hen arfer â chlywed am restrau tebyg gan y cwmnïau ceir. Mae'r cwmnïau hyn yn aml iawn yn gorfod cywiro gwahanol ddiffygion sydd wedi dod i'r amlwg mewn ceir o wneuthuriad arbennig. Peth newydd, fodd bynnag, yw clywed am gwmi'n gorfod rhoi sylw i'w ceir am ei fod yn fwrriadol wedi twyllu wrth gynllunio'r ceir hynny i ddechrau.

Mae'r ddau gwmi'n addo cywiro'r diffygion, ac eto newydd drwg sydd yn y ddau lythyr mewn gwirionedd. Does fawr o gysur mewn gwybod y gallai un car fod yn llai diogel nag y dylai fod oherwydd y bag awyr diffygiol. Ac mae'n debyg fod y twyll o ran y car

arall wedi tynnu oddi wrth ei werth am nad yw mor effeithiol ag yr honnwyd amdano'n wreiddiol.

Un peth a wn yw bod ynof finnau fwy na digon o ddiffygion, yn cynnwys twyll a rhagrith o bob math. Mae fy enw ar restr hir iawn o bobl sy'n euog gerbron Duw. Mewn gwirionedd, yr unig berson nad yw ei enw ar y rhestr honno yw Iesu Grist gan mai fo yw'r unig un erioed sydd wedi byw bywyd perffaith. Mae bod â'm henw ar y rhestr yn fy ngosod mewn perygl o gael fy ngwrthod gan Dduw, sy'n amlwg yn newyddion drwg dros ben.

Ond mae rhestr arall y medrwn ddiolch amdani: y rhestr y soniai Paul amdani wrth sôn am ei gydweithwyr o blaid yr Efengyl 'sydd â'u henwau yn llyfr y bywyd' (Philipiadaid 4:3). Yr un rhestr y sonni amdani hefyd yn y gân am gael 'fy enw i lawr yn y dwyfol lyfr mawr'.

Ie, testun diolch yw'r rhestr honno i bawb y mae eu henwau arni gan mai dyma restr y bobl sy'n rhan o deulu Duw. Mae'n wir fod i bob un o'r bobl hynny eu diffygion, ond nid dyna pam fod eu henwau ar y rhestr. Maen nhw ar y rhestr am fod yr holl feiau wedi eu glanhau a'r holl dwyll wedi ei faddau trwy waith achubol Iesu Grist ar groes Calfaria. Nid rhestr drist o bobl a beiau mo hon ond rhestr lawen o bobl y mae pob bai a diffyg wedi eu dileu trwy Iesu. A phwy sydd â'u henwau ar y rhestr hon? Pawb sy'n credu â'i holl galon yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Cynhelir oedfaon Diolchgarwch yn Capel Coch. Bydd yr oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd a'r oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau'r eglwys. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Am 5.00 o'r gloch bydd oedfa Ddiolchgarwch dan arweiniad y Gweinidog a rhai o'r plant a'r ieuenctid.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan. Diolch iddo yntau am ei wasanaeth.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sydd heb fod yn dda. Mae amryw yn methu â dod i'r oedfaon, a dymunwn adferiad buan i chi.

Diolchgarwch

Mae'r oedfaon Diolchgarwch yn parhau yn yr Ofalaeth heddiw, fel y nodir uchod.

Bydd oedfa Ddiolchgarwch y plant yn Capel Coch yn ystod yr Oedfa Deulu y Sul nesaf, Hydref 25.

Bydd oedfa Ddiolchgarwch yng nghapel Bethlehem, Talybont dan arweiniad plant ac aelodau'r Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch, ddydd Sul nesaf, Hydref 25. Bydd paned yn y festri ar ôl yr oedfa.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Mrs Carol Druce, Dôl Elidir, Llanberis a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Gwener diwethaf, Hydref 16.

Dosbarth Gwau

Yfory, ddydd Llun, Hydref 19, cynhelir y 'Dosbarth Gwau' yn festri Carmel, Llanllechid rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

Bwrlwm

Bydd 'Bwrlwm' yn festri Bethlehem., Talybont am 2.15 o'r gloch ddydd Iau, Hydref 22.

Pen-blwydd

Dymunwn Ben-blwydd Hapus i Mr Llew Jones, 2 Cae Gwigin, Talybont sy'n dathlu ei ben blwydd yn 90 oed heddiw. Mae'n dda deall ei fod yn cryfhau wedi'r llawdriniaeth a gafodd ddechrau mis Medi. Anfonwn ein cofion gorau ato, ac edrychwn ymlaen at ei weld yn ôl yn yr oedfaon yng nghapel Bethlehem mor fuan â phosibl.

Yr Henaduriaeth

Bydd Henaduriaeth Arfon yn cyfarfod yng nghapel Seilo, Caernarfon ddydd Mawrth yr wythnos hon, Hydref 21. Cynhelir dau gyfarfod, am 3.00 a 6.30 o'r gloch. Bydd blaenoriaid newydd yr Henaduriaeth yn cael eu hordeinio yn yr oedfa am 6.30 o'r gloch.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Hydref 28. Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys yr Oedfa Bregethu Flynyddol. Y Parchg Euros Jones, Llangejni fydd yn pregethu yn yr oedfa hon eleni.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod i'r cyfarfod cyfan neu i ddod i'r oedfa erbyn 7.30 o'r gloch.

Capel Coch

Fel y gwyddoch, mae rhan o adeiladau Capel Coch wedi bod ar werth er tro byd. Y capel ei hun sydd ar werth, a byddwn yn cadw'r festri a gweddill yr adeiladau at ein defnydd fel eglwys.

Erbyn hyn, mae'n ymddangos fod darpar brynwr yn barod i gwblhau'r pryniant, a phan fydd popeth wedi ei setlo fe fydd modd i ni roi gwybod yn swyddogol i aelodau'r eglwys.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Estynnir croeso cynnes i chi i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 9.

Yn y cyfarfod hwn ceir adroddiad am waith y Cynllun dros y flwyddyn. Mae'n gyfle bob blwyddyn i ni ddiolch hefyd i Andrew ac i bawb sy'n cefnogi gwaith Efe mewn unrhyw ffordd.

Oedfaon Bedydd

Yn ôl y drefn sydd gennym o fewn yr Ofalaeth newydd, mae'r Gweinidog yn arwain oedfaon yng nghapel Carmel am 5.00 o'r gloch ddwywaith y mis.

O gofio fod sacrament y bedydd yn rhan o addoliad yr eglwys, bydd pob bedydd yn cael ei weinyddu yn ystod oedfaon arferol eglwysy'r Ofalaeth hon. Gall hynny greu rhywfaint o anhawster yng Ngharmel gan fod 5.00 o'r gloch braidd yn hwyr o bosibl.

Er mwyn hwyluso pethau i bawb, bydd pedwar Sul y flwyddyn yn cael eu nodi fel 'Suliau Bedydd' yng Ngharmel, a'r Gweinidog yn gwasanaethu yno am 3.00 (neu 3.15) o'r gloch y pnawn. Byddwn yn cadw at yr amser hwnnw ar y pedwar Sul hyd yn oed os na fydd bedydd wedi ei drefnu.

Wrth gwrs, bydd croeso i deuluoedd Carmel ddod â'u plant i'w bedyddio ar y Suliau y bydd y Gweinidog yno am 5.00 o'r gloch os dymunant.

Cymdeithas Llanberis

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Tachwedd 10 yng nghwmni Annette Bryn Parri, Deiniolen.

Croeso cynnes i'r cyfarfod hwn.